OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 1271 (Cy. 206)

2025 No. 1271 (W. 206)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2025

The Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) (Amendment) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006 i ddileu'r uchafswm terfyn ffioedd o £100 y gall Gweinidogion Cymru ei godi ar hyn o bryd ar bersonau y mae eu hapêl yn ymwneud â chynllun y taliad sylfaenol, cyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin neu gymorth ar gyfer datblygu gwledig. Ar gyfer yr apelau hyn, gall Gweinidogion Cymru godi unrhyw ffi a bennir ganddynt.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006 to remove the maximum £100 fee limit that the Welsh Ministers can currently charge persons whose appeal relates to the basic payment scheme, the financing, management and monitoring of the common agricultural policy or support for rural development. For these appeals, the Welsh Ministers can charge such fee as they may determine.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 1271 (Cy. 206)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2025

Gwnaed	*3 Rhagfyr 2025*
Yn dod i rym	*1 Ionawr 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 16(1), 17(1) a 19(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(**1**) ("Deddf 2023").

Yn unol ag adran 50(6) o Ddeddf 2023, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2026.

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(4)(b), ar ôl "bennu", mewnosoder ", yn ddarostyngedig i baragraff (5)".

(**1**) 2023 dsc 4.
(**2**) O.S. 2006/3342 (Cy. 303), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

2025 No. 1271 (W. 206)

AGRICULTURE, WALES

The Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) (Amendment) Regulations 2025

Made	*3 December 2025*
Coming into force	*1 January 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 16(1), 17(1) and 19(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023(**1**) ("the 2023 Act").

In accordance with section 50(6) of the 2023 Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) (Amendment) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 1 January 2026.

Amendment of the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006

2.—(1) The Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 3(4)(b), after "determine", insert "subject to paragraph (5)".

(**1**) 2023 asc 4.
(**2**) S.I. 2006/3342 (W. 303), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(3) Ar ôl rheoliad 3(4) mewnosoder—

"(5) I'r graddau y mae'r ffi apêl yn ymwneud â chynllun cyn Deddf 2023, caiff Gweinidogion Cymru godi ar unrhyw berson yr ystyrir ei apêl o dan unrhyw weithdrefn o fath a grybwyllir ym mharagraff (3), unrhyw ffi a bennir gan Weinidogion Cymru.

(6) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cynllun cyn Deddf 2023" yw unrhyw gynllun sy'n gweithredu o dan ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn adran 16(2), 17(2) neu 19(2) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(**1**)."

(3) After regulation 3(4) insert—

"(5) As far as the appeal fee relates to a pre-2023 Act scheme, the Welsh Ministers may charge any person whose appeal is considered under any such procedure as is mentioned in paragraph (3) such fee as the Welsh Ministers may determine.

(6) In this regulation, "a pre-2023 Act scheme" means any scheme operating under legislation referred to in section 16(2), 17(2) or 19(2) of the Agriculture (Wales) Act 2023(**1**)."

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
3 Rhagfyr 2025

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
3 December 2025

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 2023 dsc 4.

(**1**) 2023 asc 4.

ISBN 978-0-348-39750-5

£6.40

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/1271